# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Adroddiad (SLC(3) 12-08)

**Dyddiad: 13 Mai 2008**
**Amser: 8.45am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd**

**CYNNWYS**

Cyfarfu'r pwyllgor ar 13 Mai 2008. Roedd yr Aelodau canlynol o'r pwyllgor yn bresennol: Dr Dai Lloyd AC, Eleanor Burnham AC, Andrew RT Davies AC, Alun Davies AC, Irene James AC.

Mae adroddiadau'r pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

### Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

### Offerynnau drafft sy'n agored i gael eu cymeradwyo yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn gadarnhaol)

**SLC153 - Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Diwygio) 2008** Y weithdrefn gadarnhaol. Fe'u gwnaed ar 2008. Yn dod i rym ar 2008. **Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)** **SLC150 - Rheoliadau Gwaith Stryd (Ffioedd Arolygu) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2008** Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 29 Ebrill 2008. Fe'u gosodwyd ar 30 Ebrill 2008. Yn dod i rym ar 22 Mai 2008. **SLC151 - Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Dyfeisiadau a Gymeradwyir) (Cymru) (Rhif 2) 2008** Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 29 Ebrill 2008. Fe'u gosodwyd ar 30 Ebrill 2008. Yn dod i rym ar 22 Mai 2008. **SLC152 - Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) (Rhif 2) 2008** Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 29 Ebrill 2008. Fe'u gosodwyd ar 30 Ebrill 2008. Yn dod i rym ar 22 Mai 2008.

### Offerynnau ac offerynnau drafft y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

**SLC149 - Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) (Diwygio) 2008** Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 25 Ebrill 2008. Fe'u gosodwyd ar 25 Ebrill 2008. Yn dod i rym ar 26 Ebrill 2008. **SLC154 - Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2008** (Saesneg yn unig) Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 30 Ebrill 2008. Fe'u gosodwyd ar 30 Ebrill 2008. Yn dod i rym: at ddiben rheoliad 29(c) - 1 Gorffennaf 2008; at bob diben arall - 1 Mai 2008. Mae adroddiadau'r pwyllgor o dan Reol Sefydlog 15.2 ar Offerynnau Statudol sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol) i'w gweld yn Atodiad 1-2 i'r adroddiad hwn.

### Materion eraill

Cytunwyd y byddai'r pwyllgor yn cadw cofnod o'r offerynnau statudol nad ydynt wedi'u gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg fel yr adroddir o dan Reol Sefydlog 15.2, gyda'r nod o fonitro'n rheolaidd a yw'r ddeddfwriaeth hon wedi hailgyflwyno'n ddwyieithog ai peidio.

### Dr Dai Lloyd AC

Cadeirydd, Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**13 Mai 2008**

**Atodiad 1**

# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## (SLC(3)-12-08)

**SLC149**

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### Bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol o dan Reol Sefydlog 15.2.

**Teitl: Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) (Diwygio) 2008**

- gweithredu newid yng Nghymru i reoliadau'r UE ar ddeunyddiau risg penodol i godi'r oedran y caiff asgwrn cefn anifeiliaid buchol ei ddynodi fel deunydd risg penodedig o 24 mis i 30 mis. (Mae hyn yn dychwelyd y terfyn oedran ar gyfer asgwrn cefn anifeiliaid buchol yn y DU i'r hyn yr ydoedd cyn mis Mai 2006 pan gafodd rheolau deunyddiau risg penodedig eu cysoni â'r rhai mewn Aelod-wladwriaethau eraill fel rhan o'r broses ar gyfer codi'r gwaharddiad ar allforio cig eidion a chynnyrch cig eidion o'r DU).

**Gweithdrefn:  Negyddol**

Bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn o dan Reol Sefydlog 15.2(vi) (drafftio diffygiol) a Rheol Sefydlog 15.2 (vii) (anghysondebau rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg):- Mae Rheoliad 2(2)(a) yn cynnwys diffiniad newydd, sef "the amended Community TSE Regulations". Mae'r testun Cymraeg yn darparu mai'r ymadrodd yw "Rheoliad diwygiedig y Gymuned".  Fodd bynnag, ym mharagraff 1(1) o destun Cymraeg yr Atodlen 6 newydd, ceir y geiriau "Reoliadau TSE y Gymuned fel y'i diwygiwyd" (the Community TSE Regulations as amended).

**Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-**

Mae'r Llywodraeth wedi nodi bod y pwyntiau uchod wedi'u derbyn, ond nid yw'n bwriadu cymryd unrhyw gamau ar hyn o bryd gan fod disgwyl i'r Rheoliadau gael eu dirymu a'u hail-wneud yn y 12 mis nesaf.

**Dr Dai Lloyd AC**

Cadeirydd, Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**13 Mai 2008**

**Atodiad 2**

# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## (SLC(3)-12-08)

**SLC154**

**Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**Bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol o dan Reol Sefydlog 15.2.**

**Teitl: Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2008**

- rhoi ar waith yng Nghymru Gyfarwyddeb 2007/19/EC y Comisiwn Ewropeaidd sy'n diwygio Cyfarwyddeb 2002/72/EC drwy ddiweddaru'r rhestrau o sylweddau ac ychwanegion monomer a ganiateir ar gyfer eu defnyddio wrth gynhyrchu plastig sy'n dod i gysylltiad â bwyd a gosod amodau ar gyfer eu defnyddio'n ddiogel. Mae'r offeryn yn torri'r rheol 21 diwrnod gan iddo gael ei wneud a'i osod gerbron y Cynulliad ar 20 Ebrill 2008 a dod i rym (ar wahân i rai dirymiadau) ar 1 Mai 2008. Mae'r Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ wedi cynghori, yn ei lythyr at y Llywydd dyddiedig 30 Ebrill 2008, bod torri'r rheol wedi digwydd o ganlyniad i'r angen i drosi'r Gyfarwyddeb a'i rhoi ar waith erbyn 1 Mai 2008.

**Gweithdrefn : Negyddol**

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn o dan Reol Sefydlog 15.2(ix) (nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg): Drafftiwyd yr offeryn yn Saesneg yn unig. Yn ei lythyr at y Llywydd nododd y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ fod y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol wedi penderfynu na fyddai'n ymarferol bosibl i wneud y Rheoliadau'n ddwyieithog oherwydd yr angen i drosi'r Gyfarwyddeb a'i rhoi ar waith erbyn 1 Mai 2008 ac er mwyn sicrhau y byddai'r Rheoliadau'n dod i rym ar yr un pryd â rheoliadau cyfochrog yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, gan felly sicrhau gorfodaeth a diogelwch cyson i ddefnyddwyr ar draws y DU. Roedd hyd a natur dechnegol y Rheoliadau (mae'r Atodlen yn rhyw 17,000 o eiriau) yn golygu y byddai fersiwn Gymraeg wedi cymryd rhwng 4 a 6 wythnos i'w gynhyrchu ac felly na fyddai fersiwn Cymraeg wedi ei gynhyrchu mewn pryd i gydymffurfio â'r dyddiad cau ar gyfer trosi. Deellir bod y Llywodraeth yn bwriadu dirymu ac ail-wneud y Rheoliadau hyn yn ddwyieithog.

**Dr Dai Lloyd AC**

Cadeirydd, Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**13 Mai 2008**